

Fyfyriwr sydd ar goll

Canllawiau ar ymateb i Adroddiad ar Fyfyriwr sydd ar Goll

1 Diffiniad Myfyriwr Ar Goll

1.1 Pan fo myfyriwr yn absennol o'r Brifysgol yn ystod y tymor, gall fod yn anodd canfod p'un a yw ef/hi wedi trefnu'r absenoldeb ynteu ar goll. Yn ystod y cyfnod asesu a'r wythnosau darllen, mae hyn yn fwy anodd fyth, yn enwedig o gofio nad yw'r holl fyfyrwyr yn glynu'n dynn wrth y rheol yng nghyswllt gadael cyfeiriad lle gellir cysylltu â hwy os byddant yn absennol am fwy na diwrnod. (Rheolau PCB ar Breswyllo, Arweiniad i Fyfyrwyr 4.2)

1.2 At ddibenion y ddogfen hon, diffinnir myfyriwr ar goll fel a ganlyn:

Bernir bod myfyriwr ar goll o'r Brifysgol pan fydd ei (h)absenoldeb yn achosi pryder a bod unigolyn neu unigolion, o ganlyniad, yn mynegi eu pryder.

Gal pryder ei amlygu ei hun:-

- a) wrth i fyfyriwr siarad ag aelod o staff y Brifysgol
- b) wrth i aelod o'r staff ddweud wrth aelod arall o'r staff am ei b/phryder, yn enwedig wrth y staff hynny sydd â chyfrifoldeb penodol dros gefnogi myfyrwyr
- c) wrth i aelodau teulu'r myfyriwr fynegi eu pryder
- ch) wrth i rywun o'r tu allan i'r Brifysgol sôn wrth aelod o gymuned y Brifysgol am ei b/phryder.

1.3 Efallai y ceir ansicrwydd o hyd yngl n â ph'un a yw'r myfyriwr ar goll ynteu'n absennol trwy drefniant; y cam nesaf, felly, yw casglu gwybodaeth a'i gosod at ei gilydd fel y daw'r sefyllfa'n gliriach. Wrth wneud hynny, bydd y Brifysgol yn cyflawni ei Dyletswydd Gofal yn gyfrifol.

1.4 Efallai y ceir adegau y mae aelodau o'r teulu, yn enwedig rhieni, yn cysylltu â'r Brifysgol am eu bod yn bryderus nad ydynt wedi clywed oddi wrth eu mab/merch. Ran amlaf, y cwbl sydd ei angen yw cysylltu â'r myfyriwr a dweud wrtho/wrthi am bryder ei b/pherthnasau, gan awgrymu y gallai ef/hi gysylltu â hwy. Gellid dweud wrth y perthnasau fod neges wedi'i hanfon ymlaen at y myfyriwr. Fodd bynnag, os na ellir cysylltu â'r myfyriwr, dylid cynnal asesiad risg gan ddefnyddio'r wybodaeth isod ac, yn ôl y canlyniad, benderfynu yngl n â lefel y risg a geir, a'r ffordd orau o weithredu.

2 Cyd-drefnu

2.1 Yn aml, gweithredir ar y cam cyntaf o fewn yr Adran Academaidd neu'r Neuaddau Preswyl. Lle bo angen ehangu'r ymchwiliad, h.y. lle na cheir gwybod yn bendant nad yw'r myfyriwr ar goll, mae'n ddoeth gofyn i un aelod o'r Gwasanaethau Canolog gyd-drefnu'r gweithgaredd, er mwyn osgoi dyblygu ymdrech, a'r dryswch yn sgîl hynny.

2.2 Pennaeth y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr, neu ddirprwy enwebedig, yw'r un mwyaf priodol i gyd-drefnu'r ymchwiliad. Bydd ef/hi'n sicrhau bod cysylltiad a chydweithrediad agos rhwng pawb sy'n ymwneud â'r mater, p'un a fyddont yn staff academaidd, yn staff neuaddau, yn staff ategol, neu'n fyfyrwyr.

3 Cyfrinachedd

3.1 Mae trin data personol ar fyfyrwyr yn ddarostyngedig i delerau ac amodau'r Ddeddf Gwarchod Data, 1998. Lle ceir pryder gwirioneddol am les myfyriwr, gellir rhannu'r wybodaeth hon, os yw hyn er budd dilys y myfyriwr dan sylw. Fodd bynnag, rhaid i holl bartïon y wybodaeth gael gwybod am yr angen i gadw cyfrinachedd lle bynnag y bo modd.

3.2 Yn ogystal, ceir rhai grwpiau proffesiynol o fewn y Brifysgol sydd wedi'u rhwymo gan Gôd Moeseg eu proffesiwn, e.e. y Caplaniaid, Cyngorwyr Myfyrwyr, a'r Nyrs Iechyd Myfyrwyr. Mae gan y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr ei Pholisi ei hun ar Gyfrinachedd yng nghyswllt darparu gwasanaeth. Wrth ymateb i ddigwyddiadau difrifol a materion cysylltiedig, bydd Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr yn ceisio gwybodaeth a'i throsglwyddo yn ôl yr angen.

3.3 Er bod disgwyliad clir i drin yn gyfrinachol unrhyw faterion personol a ddadlennir, pan dybir bod myfyriwr ar goll ac, o bosibl, mewn perygl, dylai staff y Brifysgol rannu unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad. Y sawl sy'n arwain yr ymchwiliad, mewn cysylltiad â'r staff allweddol dan sylw, ddylai benderfynu yngl n â phryd i gysylltu ag asiantaethau neu unigolion allanol. Ran amlaf, Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr fydd hwn/hon.

3.4 Fel na fydd teulu'r myfyriwr yn pryderu'n ddi-angen, ran amlaf, nid oes angen cysylltu â hwy hyd nes y bydd ymholiadau cychwynnol wedi'u cwblhau, ac y ceir cymaint o eglurhad ag sydd bosibl yngl n ag absenoldeb y myfyriwr (Gweler 6.1). Fodd bynnag, mae rhywfaint o hyblygrwydd yn bwysig, yn ôl yr amgylchiadau.

3.5 Heb achosi pryder di-angen i'r teulu, a chan ystyried yr holl amgylchiadau, dylai'r rhai sy'n ymwneud â'r achos geisio canfod, trwy'r dulliau mwyaf sensitif posibl, a yw'r myfyriwr wedi dychwelyd adref heb hysbysu'r Brifysgol.

3.6 Efallai y ceir achos o fyfyrwr ar goll nad yw, pan gysylltir ag ef/hi, am i berthnasau na phartïon eraill â diddordeb wybod lle mae ef/hi. Os felly, dylid parchu dymuniad y myfyriwr. (Gweler y Llinell Gymorth Genedlaethol i Bobl sydd Ar Goll, isod)

3.7 Pe bai teulu'r myfyriwr yn cysylltu â'r Brifysgol, byddai angen rhoi eglurhad ar bolisi PCB ar gyfrinachedd yn y lle cyntaf, cyn mynd ati i asesu'r risg sydd dan sylw.

4 Y Drefn

4.1 Dylid dilyn rhai o'r camau isod neu'r cwbl ohonynt unwaith y penderfynir ehangu'r ymchwiliad ymhellach na'r cam cyntaf:

- a) Hysbysu Pennaeth y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr neu ei dirprwy. Y tu allan i oriau swyddfa, ceir rhif cyswllt o'r Swyddfa Ddiogelwch trwy ffonio 01248 352252.
- b) Dylid cychwyn ar ymchwiliad yn cynnwys asesiad risg. Gweler isod.
- c) Dylid cysylltu â'r rhai a ganlyn, i ganfod a allant roi unrhyw wybodaeth ddefnyddiol:-
 - i. y rhai sy'n rhannu llety yn ystod y tymor, yn cynnwys Wardeiniaid/ Tiwtoriaid Neuaddau lle bo hynny'n briodol
 - ii. staff a myfyrwyr sydd wedi cysylltu â'r myfyriwr ar goll o'u Hadran(nau) Academaidd
 - iii. Undeb y Myfyrwyr – yn enwedig os yw'r myfyriwr yn aelod o unrhyw grwpiau neu'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau/chwaraeon

- iv. unrhyw gysylltiadau cymdeithasol eraill y gwyddys amdanynt
- v. Gwasanaethau Lles o fewn y Brifysgol y bo'r myfyriwr yn eu defnyddio, e.e. y Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr, Caplaniaid, Gwasanaeth Undeb y Myfyrwyr dros Gyngori a Chynrychioli

ch) Byddai angen casglu'r wybodaeth isod:

- i. gwirio cofrestru adrannol yng nghyswllt presenoldeb y myfyriwr
- ii. ymgynghori â staff adrannol i gael gwybodaeth yngl n â chynnydd academaidd myfyriwr, peidio â chyflwyno gwaith, amgylchiadau personol, etc.
- iii. gwirio â'r Gofrestrfa Academaidd i ganfod a yw'r myfyriwr wedi cofrestru ar gyfer y semester dan sylw
- iv. Gwirio â'r Cofrestrydd Cynorthwyol/Tynnu'n Ôl (Gwasanaethau Myfyrwyr) i ganfod a yw'r myfyriwr wedi tynnu'n ôl

d) Dylid dogfennu'r holl gysylltiadau a wneir a'r wybodaeth a gesglir.

dd) Er mwyn cyflymu'r broses, gallai fod yn briodol dirprwyo'r tasgau i dîm bychan.

5 Asesu Risg

5.1 Wrth gasglu gwybodaeth, mae'n bwysig canfod:-

- a) a yw'r myfyriwr yn dioddef gan unrhyw gyflwr corfforol neu seiciatrig a fyddai'n cyfiawnhau barnu ei f/bod yn risg mawr? *
- b) a yw ei (h)absenoldeb yn newid arwyddocaol ym mhatrwm arferol ei (h)ymddygiad, na ellir ei egluro, ac yn awgrymu y gallai ef/hi gael niwed?*
- c) a yw ef/hi fel arfer yn byw dramor ac wedi mynd ar goll yn y DU? *
- ch) a yw ef/hi yn arfer byw yn y DU ac wedi mynd ar goll dramor? *
- d) a yw ef/hi yn 65+ mlwydd oed? *
- dd) a oes unrhyw anawsterau cysylltiedig â chyffuriau/alcohol?
- e) a yw ef/hi wedi mynegi bwriad i'w niweidio ei hun/i niweidio eraill? **
- f) a fu ef/hi yn ddiweddar yn gysylltiedig ag unrhyw ddiwyddiad(au) hiliol/ treisgar?
- ff) a yw ef/hi wedi dioddef trosedd yn ei (h)erbyn, yn enwedig aflonyddu, bwlio neu drais?
- g) a yw ef/hi'n cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon neu weithgareddau peryglus?
- ng) a yw ef/hi wedi cael unrhyw anafiadau yn ddiweddar, yn enwedig ar y pen?
- h) a yw'r tywydd yn anffafriol?
- i) a oes ganddo/ganddi hanes o fod ar goll o'r blaen?
- j) a wyddys am unrhyw anawsterau teuluol/yng nghyswllt perthynas?
- l) faint o amser sydd ers i unrhyw aelod o gymuned y Brifysgol weld y myfyriwr?

5.2 * Y rhai sydd â seren fach yw'r ffactorau a ddefnyddir gan yr Heddlu i ddiffinio person sydd ar goll fel 'Risg Uchel Bregus'. Mae gan yr Heddlu hefyd gategori 'Risg Isel Bregus' a ddynodir i rywun a ddiffinnir fel person 'bregus' ond sydd wedi gadael o'i (gwirfodd, yn amlwg, ac na chredir bod perygl sylweddol iddo/iddi gael niwed.

5.3 ** Er nad yw hwn yn gategori yn rhestr yr Heddlu o Risg Uchel Bregus, ceir cyfeiriad ato yn y Llinell Gymorth Genedlaethol i Bobl sydd Ar Goll, a dylid ei gymryd o ddifrif.

6 Cysylltu â'r Teulu

6.1 Onid oes rheswm amlwg dros beidio â gwneud, dylid cysylltu â theulu'r myfyriwr sydd ar goll unwaith fod yr ymchwiliad cyntaf wedi'i gynnal.

6.2 Bydd angen cynnal trafodaeth yngl n â chysylltu â'r Heddlu. Gall y teulu neu'r Brifysgol gysylltu â'r teulu, fel y bo'n briodol. Dylid cysylltu â'r Heddlu yn yr ardal lle adroddwyd bod y myfyriwr wedi mynd ar goll. Ran amlaf, Bangor fyddai honno.

7 Cysylltu ag Asiantaethau Allanol

7.1 Mae'r Rheolwr Rowndiau Cymunedol wedi dangos ei bod yn fodlon i rywun gysylltu â hi cyn hysbysu'r Heddlu yn ffurfiol fod myfyriwr wedi mynd ar goll. Efallai y bydd hi'n gallu cynnig cyngor neu wybodaeth. Dylid gwneud hyn mewn cysylltiad â'r Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr.

7.2 Os gwyddys am broblem iechyd meddwl, efallai y byddai'n briodol cysylltu â'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a/neu Uned Hergest yn Ysbyty Gwynedd.

7.3 Unwaith y bydd yr ymchwiliad cyntaf wedi'i gwblhau, ac y cytunir bod y myfyriwr ar goll, caiff y teulu neu'r Brifysgol, fel y bo'n briodol, gysylltu â'r Heddlu. Dylid rhannu â hwy unrhyw wybodaeth a gasglwyd a champau a gymerwyd eisoes. Dylid egluro wrth yr Heddlu â phwy y dylent gysylltu o fewn y Brifysgol. Ran amlaf, Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr fydd honno.

7.4 Dylai Cofrestrydd y Brifysgol gael gwybod os hysbysir yr Heddlu, er mwyn goruchwylio unrhyw gyfarwyddiadau a roddir i Swyddog y Wasg os bydd angen am hynny.

7.5 Unwaith y bydd yr Heddlu yn gysylltiedig yn ffurfiol, bydd yn rhoi enw'r myfyriwr sydd ar goll ar y Llinell Gymorth Genedlaethol i Bobl Sydd Ar Goll. Corff elusennol yw hwn, sydd â chysylltiadau ar draws y DU ac a all roi cyhoeddusrwydd ac ennyn diddordeb y cyfryngau mewn ymchwiliad i rywun sydd ar goll. Yn ogystal, mae'r Llinell Gymorth hon yn cynnig gwasanaeth i'r rhai sydd 'ar ôl'. Rôl Gefnogol yw hon, lle cynigir cymorth ymarferol, cyngor a chefnogaeth. Mae'r Llinell Gymorth ar waith 24 awr y diwrnod, a 0500 700 700 yw'r rhif. Yn ogystal, mae staff y llinell yn cynnig Gwasanaeth Neges Adref ar gyfer rhai sydd, am ba reswm bynnag, wedi gadael eu cartref a heb awydd i neb gael hyd iddynt. Gallant anfon neges adref trwy'r gwasanaeth hwn heb i neb gael hyd iddynt, er mwyn lleddfu ar bryderon y rhai sydd ar ôl.

7.6 Os gwyddys fod y myfyriwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau peryglus, efallai y bydd angen cysylltu â'r gwasanaethau achub priodol: yn achos gweithgareddau ar y tir, yr Heddlu, yn achos gweithgareddau ar y glannau neu ar y môr, Gwylwyr Glannau Ei Mawrhydi.